



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

# **Cynllun Marchnata Pren ar gyfer y Cyfnod 2017 – 2022**

## Crynodeb gweithredol

Mae'r coedwigoedd sy'n ffurfio Ystad Goed Llywodraeth Cymru yn ased cenedlaethol gwerthfawr. Rydym yn gofalu am y coedwigoedd hyn ar ran Llywodraeth Cymru, a'n nod wrth wneud hynny yw optimeiddio lles pobl trwy reoli'r adnoddau coedwig yn gynaliadwy. Mae pren o Ystad Goed Llywodraeth Cymru yn cynnal miloedd o swyddi yn uniongyrchol ac yn cyfrannu miliynau at economi Cymru, yn ogystal â'n helpu ni i ymladd y newid yn yr hinsawdd trwy ddiogelu carbon. Ni yw'r cyflenwr mwyaf o bren ardystiedig yng Nghymru – y gymeradwyaeth annibynnol i'n harfer coedwigaeth cynaliadwy.

Mae'r cynllun hwn yn cyfathrebu ein dull o gynaeafu a marchnata pren o Ystad Goed Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod 2017–22. Mae'n adeiladu ar y dull a fabwysiadwyd yn 2016/17 pan gyflwynwyd amodau newydd gennym ar gyfer rhai gwerthiannau, a hysbyswyd gan ymarfer ymgynghori cyhoeddus yn 2015.

Fel rheolwyr 38% o adnodd coedwigoedd Cymru, rydym yn cyflenwi tua 60% o gyfanswm y pren a gynaeafir yng Nghymru ar hyn o bryd, sy'n gwneud y cynllun hwn yn unigryw mewn llawer o ffyrdd. Mae gan ein holl goedwigoedd gynlluniau hirdymor yn nodi sut y bydd eu natur a'u cymeriad yn newid dros y 25 i 50 mlynedd nesaf. Mae cynaeafu a gwerthu pren yn rhan hollbwysig o'r cylch rheoli coedwigoedd, gan ein galluogi i ailstrwythuro a siapio ein coedwigoedd yn y dyfodol. Mae'r cynllun hwn yn nodi'r gwaith cynaeafu pren (teneuo a llwyrgwmpo) y bwriedir ei wneud dros y pum mlynedd nesaf.

Rydym yn parhau i fod yn ymroddedig i gefnogi ein cwsmeriaid a'n contractwyr drwy'r cyfnod hwn. Bydd y newidiadau hyn yn ein galluogi i ymateb i'r heriau ariannol anodd sydd o'n blaenau ac, yn seiliedig ar ddealltwriaeth gynyddol o'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru, byddwn yn sicrhau ein bod yn dilyn dull mwy chwim ac ystyriol o'r farchnad o ymdrin â'n rhaglen gwerthu pren. Dyma elfennau allweddol ein cynllun ar gyfer 2017–22:

Mae ein **hamcanion marchnata** yn parhau'n gyson. Ein nod yw sicrhau'r gwerth gorau o werthu pren trwy ei gynnig ar werth mewn ffordd deg, agored a thryloyw sy'n galluogi cymaint o gwsmeriaid â phosibl i gystadlu amdano.

Byddwn yn parhau i werthu ein pren gydag ardystiad y **Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd**. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau arfer gorau gan gynnwys **Cytgord Diogelwch Diwydiant Coedwigoedd y DU**, **Safon Coedwigaeth y DU** a chydymffurfiad â **Rheoliadau Adeiladu, Dylunio a Rheoli a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cludo Pren**. Byddwn yn parhau i weithio gyda chwsmeriaid a chontractwyr pren er mwyn helpu i sicrhau eu diogelwch a'u bywoliaeth.

Bydd y **lefel pren** uchaf a gynigir ar werth bob blwyddyn yn parhau i fod yn 850,000 metr ciwbig dros risgl yn sefyll (*over-bark standing*) (m<sup>3</sup> obs). Byddwn yn parhau i gynnig "cyfanswm sylfaenol" o tua 700,000m<sup>3</sup> obs ar ffurf contractau Cynhyrchu Uniongyrchol neu Werthu Sefydlog confensiynol. Bydd hyd at 150,000m<sup>3</sup> obs arall yn cael eu cynnig ar ffurf contractau Gwerthu Sefydlog ag amodau arbennig, a fydd yn cael eu galw'n contractau *Gwerthu Sefydlog a Mwy*, lle bydd y prynwr yn gyfrifol am wneud ei waith peirianeg sifil ei hun ac ailstocio ardaloedd wedi'u llwyrgwmpo yn unol â manyleb a gytunwyd.

Byddwn yn anrhydeddu pob **Contract Hirdymor** presennol, ond ni fyddwn yn eu disodli yn awtomatig gan leihau'r ymrwymadau hyn i 23% o'r cyfanswm a werthir erbyn 2021/22 wrth i werthiannau ar y farchnad agored gynyddu i bron i 77%. Mae unrhyw dwf o ran

Contractau Hirdymor yn y dyfodol yn debygol o gefnogi teneuo a lle mae tystiolaeth yn awgrymu y byddent yn cefnogi buddsoddiad yn y gadwyn gyflenwi neu ein hamcanion a'n polisiâu marchnata ehangach yng nghyd-destun Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.

Bydd **gwerthiannau ymyl y ffordd** yn gostwng i 280,000m<sup>3</sup> neu 32% yn 2017/18 er mwyn rhoi'r lle i ni gynnig cyfanswm o hyd at 150,000m<sup>3</sup> ar ffurf y contractau Gwerthu Sefydlog a Mwy newydd. Bydd gwerthiannau ymyl ffordd yn tueddu i gael eu crynhoi mewn ardaloedd lle'r ydym o'r farn bod angen i ni gadw mwy o reolaeth er mwyn cyflawni ein cyfrifoldebau. Fodd bynnag, byddwn yn adolygu cynnydd ac yn cadw'r hawl i ddiwygio ein cydbwysedd gwerthiannau ymyl ffordd o'u cymharu â gwerthiannau sefydlog o +/- 25% trwy gydol cyfnod y cynllun, ond byddwn yn gweithio'n agos gyda'n holl gwsmeriaid i'w hysbysu am ein cynlluniau sy'n dod i'r amlwg.

Byddwn yn parhau i gyhoeddi **datganiad blynyddol** o ymrwymïadau a dyddiadau digwyddiadau gwerthu arfaethedig ym mis Hydref cyn y flwyddyn werthu 12 mis nesaf ac yn cynnig rhagor o fanylion yn ein **Cyfarfod Cyswllt Cwsmeriaid** blynyddol i'w gynnal ym mis Ionawr bob blwyddyn.

Ceir gwybodaeth am **ddigwyddiadau gwerthu a gwerthiannau a negodwyd** yn ogystal â sut y byddwn yn ymateb i **ddulliau newydd ac arloesol**. Bydd grwpiau coetir cymunedol, mentrau cymdeithasol, newydd-ddyfodiaid a microfusnesau yn ysgogi cyfleoedd datblygu economaidd. Mae ein cynllun Coetiroedd a chi / Mynediad yn annog y rhai sy'n dymuno cymryd rhan yn y gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd rheoli coetiroedd a phenderfyniadau ynghylch y defnydd o bren o ran lleihau **ôl troed carbon** Cymru ac yn esbonio sut y byddwn yn defnyddio 'hierarchaeth o ddefnydd carbon' syml yn ein dull.

Rydym yn esbonio sut y byddwn yn **rheoli unrhyw newid** gan ddefnyddio cyfnod 12 mis o rybudd oni bai fod amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, fel clefyd coed a thywydd difrifol, yn golygu bod cyfnod byrrach yn angenrheidiol.

Rydym yn nodi ein **safonau gwasanaeth cwsmeriaid** ac yn esbonio sut y byddwn yn eich hysbysu am ein **perfformiad** o ran darparu'r cynllun hwn trwy gyfres o ddangosyddion perfformiad i'w cyhoeddi ar ein gwefan.

## 1. Cyflwyniad

Mae'r Cynllun Marchnata Pren hwn ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2022. Mae'n disodli'r Datganiad Marchnata Pren Dros Dro a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n rhedeg o 1 Ebrill 2016 tan 31 Mawrth 2017. Diben y ddogfen hon yw cyfathrebu i'n cwsmeriaid a'n contractwyr pa bren sydd gennym ar gael i'w weithio (cynaeafu) a'i brynu (marchnata). Mae'n ddogfen gyfathrebu felly, yn hytrach na dogfen polisi neu strategaeth.

Mae'r cynllun yn esbonio ein dull o gynaeafu a marchnata pren o Ystad Goed Llywodraeth Cymru, yr ydym yn gyfrifol am ei rheoli ar ran Llywodraeth Cymru (LIC). Mae Ystad Goed Llywodraeth Cymru yn 38% o adnodd coedwig Cymru ac yn 60% o gyfanswm y pren a gynaeafir ar hyn o bryd, felly mae ein Cynllun Marchnata Pren yn unigryw mewn llawer o ffyrdd.

Rheolir Ystad Goed Llywodraeth Cymru yn unol â'r egwyddor o reoli coedwigoedd yn gynaliadwy. Yn gyson â'n diben, ein nod yw sicrhau'r manteision mwyaf posibl o reoli adnodd naturiol Ystad Goed Llywodraeth Cymru yn gynaliadwy, ac mae cynaeafu a gwerthu pren yn elfen bwysig o'n dull cyffredinol.

Mae'r cynllun hwn hefyd yn ein helpu i gynnal ein hardystiad Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig a chyflawni yn erbyn yr amcanion polisi perthnasol a nodir yn strategaeth 50 mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer coed a choetiroedd yng Nghymru o'r enw 'Coetiroedd i Gymru'. Ceir gwybodaeth gefndir ychwanegol am y polisi perthnasol a'r cefndir deddfwriaethol yn Atodiad 1.

## 2. Ein hamcanion marchnata

Dyma ein hamcanion marchnata:

- Sicrhau'r gwerth gorau o werthu pren trwy ei gynnig ar werth mewn ffordd deg, agored a thryloyw;
- Cynnig pren i'r farchnad mewn ffyrdd sy'n galluogi'r nifer ymarferol fwyaf posibl o gwsmeriaid i gystadlu amdano ac mewn ffyrdd sy'n cydnabod, lle bo'n bosibl, anghenion busnes ein cwsmeriaid;
- Cynnig pren mewn ffyrdd sy'n cefnogi buddsoddiad yn y gadwyn gyflenwi gyfan, o gynaeafu hyd at brosesu, ac sy'n canolbwyntio ar feysydd lle mae'r gadwyn gyflenwi honno'n wannach;
- Cynnig pren mewn ffyrdd sy'n annog ei ddefnydd i'r effaith orau i helpu Cymru i leihau ei hól troed carbon;
- Gwerthu pren mewn ffordd sy'n fwy hyblyg ac ymatebol i amodau'r farchnad ac economaidd yn ystod cyfnod y cynllun;
- Bod yn fwy tryloyw ynghylch sut y mae Ystad Goed Llywodraeth Cymru yn perfformio (o ran cynaeafu a marchnata) a'r manteision sy'n cael eu sicrhau;
- Bod yn fwy cydgysylltiedig yn ein dull fel ei bod yn eglur sut yr ydym yn darparu deddfwriaeth Cymru a blaenoriaethau ehangach LIC (e.e. trwy ein detholiad o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol);
- Archwilio cyfleoedd ar gyfer integreiddiad mwy fertigol i gynnig gwell gwerth am arian, h.y. perthynas well rhwng rhaglenni Cyfoeth Naturiol Cymru a'r gadwyn cyflenwi pren yng Nghymru.

### 3. Ein dulliau marchnata


Mae Ffigur 1 yn dangos crynodeb o'n dulliau marchnata presennol.

Mae Strategaeth *Coetiroedd i Gymru* LIC a'n [Cynllun Corfforaethol](#) yn nodi ein nodau ac amcanion strategol. Ymhen amser, ein Cynllun Corfforaethol a'n cynlluniau coedwigoedd hirdymor fydd yn ymateb i Bolisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru, sydd ar fin cael ei gyhoeddi.

Y Cynllun Marchnata Pren yw'r unig ddogfen lefel uchel yn ymwneud â'n gweithgareddau cynaeafu a marchnata ac, ochr yn ochr â newidiadau parhaus i'n strwythur a'n llinellau adrodd mewnol, hon fydd y ddogfen gyfeirio sy'n llywio ein dull dros y bum mlynedd nesaf.

Bydd gan y tîm Gweithrediadau Masnachol, wedi'i gefnogi gan brosesau llywodraethu corfforaethol, gyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod yr ymrwymadau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Marchnata Pren yn cael eu bodloni. Mae'r tîm Gweithrediadau Masnachol yn dîm 'unwaith i Gymru' a reolir yng Nghyfarwyddiaeth Weithrediadau'r Gogledd a'r Canolbarth.

Ffigur 1 – Crynodeb o ddulliau marchnata presennol



### Lefelau cynhyrchu pren o Ystad Goed Llywodraeth Cymru

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cadarnhau'r lefelau cynhyrchu pren disgwylidig ar gyfer ein cwsmeriaid a'n cyflenwyr trwy'r gadwyn gyflenwi gyfan. Mae ein cynllun marchnata yn cymryd y Rhagolwg Cynhyrchiad ar gyfer yr ystad goed gyhoeddus yng Nghymru i ystyriaeth. Mae'r lefel gynhyrchu o fewn y cyfansymiau rhagamcanol yn y rhagolwg ac rydym o'r farn y bydd hyn yn ein helpu i sicrhau y gellir cynnal cynhyrchiad ar y lefel hon dros gyfnod hwy na fyddai'n wir pe baem yn cynyddu cynhyrchiad yn y byrdymor. Rhoddir rhagor o wybodaeth am y Rhagolwg Cynhyrchiad yn Atodiad 1.

Yn ystod cyfnod y cynllun newydd hwn (2017–22), byddwn yn gwneud cyfanswm blynyddol o 850,000m<sup>3</sup> dros risgl yn sefyll (obs) ar gael, wedi'i rannu fel a ganlyn yn gyffredinol:

- Cynllun gwerthu rhaglen sefydlog sylfaenol blynyddol o 700,000m<sup>3</sup> obs er mwyn bodloni ein cylch gwaith rheoli tir gofynnol – ein hymrwymiaidau gwerthu Contract Hirdymor a'n cynnig marchnad agored ledled Cymru;
- Cynnig gwerthu rhaglen hyblyg sylfaenol blynyddol o 150,000m<sup>3</sup> obs a fydd yn cael ei gynnig fel dull gwerthu traddodiadol neu 'amodol', i gael ei adnabod fel *Gwerthiannau Sefydlog a Mwy*.

Byddwn yn gweithredu o fewn amrediad o +/- 15% yn ystod cyfnod y cynllun.

Ceir tri rheswm am y newid agwedd o ran ein prif ddulliau marchnata blaenorol:

- I ymateb i'r heriau ariannol anodd i ddod;
- I sicrhau bod y costau a'r incwm o bob gweithrediad cynaeafu coed yn cefnogi ein hamcanion llesiant a, phan fo safleoedd yn peri problemau, yn talu costau peirianeg sifil, ailblannu a chostau sefydlu o leiaf;
- I sicrhau ein bod yn dilyn dull mwy chwim ac ystyriol o'r farchnad o ymdrin â'r rhaglen gwerthu pren.

Dangosir y ffigurau arfaethedig yn **Nhabl 1**.

**Tabl 1: Lefel y pren i'w gynnig i'r farchnad yn ystod y cyfnod 2017–2022**

	Teneuo (m <sup>3</sup> obs cyfartalog)*	Llwyrgwypmo llarwydd (m <sup>3</sup> obs cyfartalog)	Llwyrgwypmo eraill (m <sup>3</sup> obs cyfartalog)*	Cyfanswm 2017 – 2022 (m <sup>3</sup> obs cyfartalog)	Datganiad Marchnata Pren Presennol (m <sup>3</sup> obs cyfartalog)
<b>Blynyddol Sylfaenol</b>	100,000	270,000	330,000	700,000	700,000m <sup>3</sup> obs
<b>Blynyddol Hyblyg</b>	80,000	-	70,000	150,000	
<b>Blynyddol Cyfanswm</b>	180,000	270,000	400,000	850,000	

\*Ein huchelgais yw cynyddu cyfanswm y teneuo a gynigir yn hytrach na choed llwyrgwypmo yn ystod cyfnod hwn y cynllun. Byddai hyn yn cefnogi'r polisïau a nodir yn y ddogfen hon o dan ein cylch gwaith cyffredinol o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Bydd y cynnig hyblyg sylfaenol blynyddol, *Gwerthiannau Sefydlog a Mwy*, yn cael ei werthu ar sail Gwerthiannau Sefydlog marchnad agored heb gyfleusterau a seilwaith cynaeafu ar waith. Ar gyfer y parseli gwerthu hyn hefyd, byddwn yn ystyried cynigion i ailstocio'r ardal lle cwmpwyd y coed yn unol â safonau cynllun ailblannu penodedig.

Mae'r rhan fwyaf o'r rhaglen cwmpo llarwydd wedi'i chynnwys ac yn cael ei darparu yn ein llinell sylfaen Contract Hirdymor ar gyfer y cyfnod. Mae'r lefel is o glefyd newydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a'r angen i sicrhau cyn lleied â phosibl o'r rhaglenni ailstocio drytach sy'n gysylltiedig â llwyrgwmpo llarwydd, yn golygu y byddwn yn ystyried rhai cyfleoedd i arafu'r gwaith o gwmpo rhywogaethau llarwydden lle bo'n bosibl. Fodd bynnag, ceir natur anrhagweladwy i'r rhaglenni rheoli clefyd, felly mae hwn yn amlwg yn faes y bydd yn rhaid i ni ei adolygu'n amlach.

Byddwn yn parhau i gyhoeddi datganiad blynyddol o ymrwymadau a bwriadau gwerthu yn ystod y flwyddyn ym mis Hydref y flwyddyn gynt ac yn fwy manwl yn ein Cyfarfod Cyswllt Cwsmeriaid ym mis Ionawr bob blwyddyn. Mae'r Cyfarfod Cyswllt Cwsmeriaid ar gyfer busnesau ac unigolion sy'n masnachu â ni. Rydym hefyd yn gwahodd cynrychiolwyr o Confor a Chymdeithas Cynhyrchion Coedwig y DU (UKFPA).

### **Preniau caled**

5,000m<sup>3</sup> obs fydd argaeledd blynyddol yr holl rywogaethau pren caled i gael eu cynnig i'r farchnad yn ystod y cyfnod o 2017 i 2022. Mae gweithio sensitif, lotiau bach a ffenestri darparu contract bach yn nodweddiadol ar gyfer preniau caled. Byddwn yn parhau i ddefnyddio pob dull marchnata i ddarparu'r elfen fach ond pwysig hon o argaeledd pren cyffredinol.

## **4. Rheoli newid**

Pryd bynnag y bo'n bosibl, byddwn yn rhoi blwyddyn o rybudd o newidiadau sy'n effeithio ein dull o gynaeafu a marchnata, oni bai fod amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, fel rheoli iechyd a chlefydau planhigion neu newid i'n sefyllfa ariannu, yn golygu y bydd cyfnod byrrach yn angenrheidiol. Os bydd angen cyfnod byrrach, byddwn yn cyfathrebu unrhyw newidiadau i'n cwsmeriaid prynu cyn gynted â phosibl er mwyn rhoi cymaint o rybudd â phosibl.

Mae'r cynllun hwn yn rhagweld y prif feysydd o newid ar gyfer cyfnod y cynllun gan gynnwys cyfanswm y teneuo a llwyrgwmpo, dulliau gwerthu, cymysgedd gwerthiannau a mathau o gontract. Rydym yn bwriadu archwilio sut i gael gwell gwerth o'n Contractau Hirdymor sy'n weddill trwy ehangu eu cwmpas, i gynnwys er enghraifft peirianeg sifil a/neu gyfleoedd ailstocio, a byddwn yn treialu ac yn adrodd ar y dull hwn yn gynnar yn ystod cyfnod y cynllun.

Lle'r ydym yn treialu ffyrdd newydd o weithio, fel cynnig gwerthiannau fel coed 'gwerthiannau sefydlog a mwy', byddwn yn asesu perfformiad yn ofalus i wneud yn siŵr eu bod yn gallu sicrhau'r canlyniadau yr ydym yn chwilio amdanynt, yn cynnig gwerth da am arian a manteision i gwsmeriaid. Ni fydd unrhyw gyfaddawdu o ran perfformiad yn unol â safonau coedamaeth, amgylchedd, ac iechyd a diogelwch cadarn.

## **5. Dulliau gwerthu**

### **Dull gwerthu pren cyffredinol**

Rydym yn sefydliad sector cyhoeddus ac felly rydym wedi ein rhwymo gan gyfarwyddebau'r UE, deddfwriaeth y DU ac unrhyw ofynion sy'n dilyn o adael yr UE. Mae'n rhaid i'n contractau a'n prosesau gwerthu fod yn deg, yn agored ac yn dryloyw a chael eu dyfarnu ar sail gwerth am arian, gan gymryd agweddau cost ac ansawdd i ystyriaeth.

Byddwn yn sicrhau bod amrywiaeth eang o gyfleoedd marchnad agored ar gael yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn werthu. Bydd ein cyfleoedd yn cael eu hysbysebu ar ein gwefan ein hunain.

Byddwn yn rhoi ystyriaeth ymarferol yn ein prosesau gwerthu i'n gallu i gefnogi manteision cymunedol ac amgylcheddol ychwanegol pan fo hynny'n bosibl, er enghraifft trwy gynnwys cymalau manteision cymunedol yn ffurfiol yn ein contractau lle bo'n briodol. Fel hyn, rydym yn gobeithio gallu defnyddio rhai cyfleoedd o'r rhaglen bren i gefnogi cyfleoedd hyfforddiant, prentisiaeth a chyflogaeth er mwyn helpu i roi sylw i fylchau yn sgiliau'r sector.

### Contractau byrdymor a hirdymor

Byddwn yn parhau i gynnal cymysgedd o Gontractau Hirdymor a gwerthiannau marchnad agored byrdymor yn ystod oes y cynllun, ond bydd cyfran gymharol pob un yn newid yn ystod y cyfnod o bum mlynedd wrth i ni fyfyrir ar y manteision ychwanegol posibl yr ydym eu hangen o gontractau hirdymor o'u cymharu â'r cyfleoedd i amodau marchnad agored.

Bydd contractau gwerthu byrdymor yn cael eu cynnig i'r farchnad yn flynyddol trwy gyfres o chwe tendr cynnig wedi'u seilio electronig cyhoeddedig o leiaf. Caiff y gwerthiannau hyn eu dyfarnu ar sail pris a'r gallu i weithio'r parcel neu fodloni manyleb y contract o fewn y cyfnod amser gofynnol.

O ran Contractau Hirdymor, byddwn yn anrhydeddu'r holl Gontractau Hirdymor presennol trwy gydol cyfnod y Cynllun hwn ac yn bodloni ein hymrwymadau gwerthu cytundebol yn llawn. Fodd bynnag, ni fyddwn yn parhau i gynnig neu ymestyn Contractau Hirdymor presennol yn awtomatig. Effaith hyn fydd gostyngiad i'n hymrwymiad Contract Hirdymor o tua 419,000m<sup>3</sup> obs (49%) ar ddechrau'r cynllun i 200,000m<sup>3</sup> obs (23%) erbyn diwedd cyfnod y cynllun, wrth i Gontractau Hirdymor ddod i ben yn naturiol, fel y dangosir yn **Nhabl 2**.

Mae unrhyw adnewyddiad neu dwf Contractau Hirdymor newydd yn y dyfodol yn debygol o ddeillio o raglenni teneuo ychwanegol a lle mae tystiolaeth yn awgrymu'n gryf y byddai dull Contract Hirdymor yn cefnogi buddsoddiad yn y gadwyn gyflenwi gan ein cwsmeriaid a/neu yn cefnogi ein hamcanion marchnata ehangach.

Mae'r newidiadau arfaethedig yn newid sylweddol i'n dull o ymdrin â gwerthiannau Contract Hirdymor a marchnad agored, yn bennaf oherwydd adborth o ymgynghoriad cyhoeddwyd a adroddwyd yn 2015, ynghyd â'r angen i allu manteisio ar farchnadoedd mwy ffafriol i gyfrannu at ein cyllid craidd. Yr effaith yn gyffredinol fydd lleihau cyfran ein gwerthiannau trwy Gontractau Hirdymor, a fydd yn ein galluogi i fabwysiadu dull mwy hyblyg wedi ei ysgogi gan amodau'r farchnad ac economaidd.

**Tabl 2: Ein hymrwymadau Contract Hirdymor a Marchnad Agored yn 2017/18 ac yn 2022.**

Math o werthu	Ymrwymiad Contract Hirdymor blynyddol	Rhaglen flynyddol (m <sup>3</sup> obs)	Rhaglen wedi ymrwymo i'r farchnad agored (m <sup>3</sup> obs)
---------------	---------------------------------------	--	---



	(m <sup>3</sup> obs)		
<b>Gwerthiannau Sefydlog</b>	245,000	570,000	325,000
<b>Boncyffion a bar ymyl ffordd</b>	84,000	168,000	84,000
<b>Pren crwn bach ymyl ffordd</b>	90,000	112,000	22,000
<b>Cyfansymiau ymyl ffordd</b>	174,000	280,000	106,000
<b>Cyfansymiau yn 2017/18</b>	<b>419,000 (49%)</b>	<b>850,000</b>	<b>431,000 (51%)</b>
<b>Y sefyllfa yn 2022 o dybio na fydd rhagor o Gontractau Hirdymor</b>	<b>200,000 (23%)</b>	<b>850,000</b>	<b>650,000 (77%)</b>

Rydym yn dal i fod wedi ymrwymo i'r egwyddor o Gontractau Hirdymor a byddwn yn agored a thryloyw yn ystod y cynllun hwn am y Contractau Hirdymor a'r manteision y maent yn eu cynnig ar draws y sector o ran y buddsoddiad a'r cyfleoedd y maent yn eu cynnig. Byddwn yn cyfathrebu ac yn hysbysu am y manteision hyn yn flynyddol yn dilyn ein hadolygiad rheoli perfformiad blynyddol o Gontractau Hirdymor.

Yn ystod cyfnod y cynllun, byddwn hefyd yn archwilio:

- Sut i gael gwell gwerth o'n Contractau Hirdymor sy'n weddill trwy ehangu eu cwmpas i gynnwys, er enghraifft, peirianeg sifil a/neu gyfleoedd ailstocio, a byddwn yn treialu ac yn adrodd ar y dull hwn yn gynnar yn ystod cyfnod y cynllun;
- Opsiwn o gynnig nifer lai o Gontractau Hirdymor (< 5,000m<sup>3</sup> obs) i roi sylw i farchnadoedd neilltuedig, methiannau yn y farchnad, neu lle gellir sicrhau manteision cymunedol ehangach. Bydd ein cynlluniau yn canolbwyntio ar deneuo coed llydanddail.

### **Cymysgedd gwerthu (gwerthiannau sefydlog neu ymyl y ffordd)**

Yn draddodiadol ac yn ystod y cyfnod diwethaf, roedd gennym strategaeth o sicrhau cymysgedd cyffredinol o 50:50 o gyfleoedd gwerthu sefydlog ac ymyl y ffordd er mwyn sicrhau'r ymateb mwyaf hyblyg posibl i gyflyrau coedwigoedd a marchnadoedd. Yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun hwn (2017/18), byddwn yn lleihau gweithio Cynhyrchu Uniongyrchol (sy'n arwain at werthu ar ymyl y ffordd) o 380,000m<sup>3</sup> obs (44%) i tua 280,000m<sup>3</sup> obs (32%). Mae hyn yn ein galluogi i greu'r lle sydd ei angen ar gyfer contractau Gwerthiannau Sefydlog a mwy ac rydym yn bwriadu monitro hyn er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei reoli yn y ffordd orau bosibl. Mae'n debygol y bydd cynhyrchiad uniongyrchol yn y dyfodol wedi ei grynhoi mewn ardaloedd o sensitifrwydd mawr, fel ardaloedd lle ceir llawer o ddefnydd hamdden a/neu werth amgylcheddol mawr lle'r ydym o'r farn y bydd ein cyfrifoldebau cyffredinol fel tiffeddianwyr yn cael eu cyflawni'n well trwy gadw rheolaeth ar gynhyrchiad.

Byddwn bob amser yn cadw'r opsiwn o adolygu'r gymysgedd o werthiannau ymyl y ffordd a sefydlog fel y gallwn reoli ein cyfrifoldeb cyffredinol fel rheolwr tir yr ystad goed

gyhoeddus yn y ffordd orau. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'n holl gwsmeriaid er mwyn eu hysbysu am ein cynlluniau newydd gan mai nhw allai gael eu heffeithio fwyaf gan newidiadau i'n cymysgedd gwerthu trwy gydol oes y cynllun.

Gyda chyfnod rhybudd o flwyddyn, rydym yn cadw'r hawl i ddiwygio ein cydbwysedd gwerthiannau ymyl y ffordd a sefydlog o +/- 25% trwy gydol cyfnod y cynllun. Er bod perfformiad economaidd ein gwerthiannau cynhyrchu uniongyrchol a sefydlog fwy neu lai yr un fath, bydd y penderfyniad i gynyddu gwerthiannau sefydlog yn cael ei gynnal dim ond os gallwn barhau i gynnig gwerth da am arian ar gyfer adnodd pren Llywodraeth Cymru ac y gallwn ddarparu ein hamrywiaeth o raglenni eraill yn gyson ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru. Ni fyddwn yn colli golwg felly ar y rhan bwysig y mae gwerthu ymyl y ffordd yn ei chwarae o ran cynnal hyblygrwydd a chystadleuaeth yn y farchnad i Cyfoeth Naturiol Cymru sicrhau'r gwerth gorau a darparu ein cylch gwaith ehangach o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

### **Digwyddiadau gwerthu**

Mae gwybodaeth am sut i brynu pren gennym ar gael ar ein gwefan.

Byddwn yn parhau i gyhoeddi datganiad blynyddol o ymrwymïadau a dyddiadau digwyddiadau gwerthu y bwriedir eu cynnal ym mis Hydref, cyn y flwyddyn werthu 12 mis nesaf (1 Ebrill i 31 Mawrth), ar ein gwefan. Byddwn yn cyflwyno'r wybodaeth hon yn ffurfiol yn ein Cyfarfod Cyswllt Cwsmeriaid blynyddol a gynhelir ym mis Ionawr fel rheol, cyn dechrau'r flwyddyn werthu newydd o 1 Ebrill.

Rydym wedi datblygu system e-werthu pren newydd a daeth hyn i rym ar 1 Ionawr 2017. Bydd y fanyleb ar gyfer y system hon yn cynnig mwy o hyblygrwydd o ran faint o werthiannau pren electronig yr ydym yn eu cynnig yn flynyddol.

Byddwn yn cadw o leiaf chwe phwynt gwerthu yn ystod pob blwyddyn ariannol ac yn cynnig amrywiaeth eang o barseli trwy'r broses farchnad agored.

Byddwn hefyd yn ceisio symleiddio dulliau gwerthu a cheisio gwerthu pren yn fwy unol â galw a ffactorau economaidd cyfredol.

Byddwn yn sicrhau bod BBaChau a mentrau cymdeithasol yn cael eu cynorthwyo i gael mynediad at werthiannau electronig – naill ai'n uniongyrchol trwy ein tîm cymorth busnes, ein tîm Mynediad, neu drwy gydweithwyr mewn asiantaethau fel Cyswllt Ffermio a Choedwigaeth.

### **Gwybodaeth gwerthu**

Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth fwy manwl ar ein gwefan i gefnogi ein digwyddiadau gwerthu, er mwyn cryfhau'r gadwyn gyflenwi gyffredinol trwy hysbysu ein cwsmeriaid a chontractwyr yn well.

Yn ystod cyfnod y cynllun, byddwn yn cyhoeddi'r lleoliadau arfaethedig yr ydym yn ymrwymo iddynt ar ein gwefan, ynghyd â'r cyfanswm, yn ôl teneuo a llwyrgwmpo, ar gyfer pob pwynt gwerth marchnad agored a drefnir.

Bydd hyn yn cael ei wneud cyn dechrau'r flwyddyn ariannol berthnasol yn y dyfodol (1 Ebrill i 31 Mawrth).

### Gwerthiannau a negodir

Byddwn yn parhau i werthu cyfran fach o'n pren trwy negodi. Bydd uchafswm o 5,000 tonnall y flwyddyn a gwerth trafodion unigol o £5,000 neu lai yn gymwys. Rydym yn teimlo bod hon yn lefel briodol o ystyried bod y gwerthiannau hyn yn cael eu negodi ac nid ar sail proses gystadleuol marchnad agored.

Bydd y parseli a negodir hyn yn tueddu i fod yn niferoedd bach o fân-rywogaeth, pren o ddimensiwn anarferol, neu ddarpariaeth i farchnad neilltuedig lle byddai'n anymarferol gwerthu trwy gystadleuaeth marchnad agored.

Byddwn yn parhau gyda'r Contract Fframwaith Coed Tân presennol fel un o'r dulliau o werthu meintiau bach o bren. Darperir gwybodaeth am ein dull o ymdrin â gwerthiannau a negodir ar ein gwefan.

### Arwerthiannau

Rydym yn bwriadu archwilio ymhellach gyda chwsmeriaid yr opsiwn o arwerthiannau electronig yn ystod cyfnod y cynllun, er mai tendrau electronig fydd y prif ddull o gynnig ein pren i'r farchnad o hyd.

Bydd ein cwsmeriaid yn cael eu hysbysu am ein dull o gynnal arwerthiannau electronig trwy gyfarfodydd cyswllt a'n gwefan.

Byddwn yn sicrhau bod BBaChau a mentrau cymdeithasol yn cael eu cynorthwyo i gymryd rhan mewn arwerthiannau.

## 6. Ardystiad, arfer gorau, a safonau iechyd a diogelwch

Byddwn yn parhau i werthu ein pren gydag ardystiad y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd yr adnabyddir ac y derbynnir yn eang ei fod yn cynnig tystiolaeth lawn fod y pren yn dod o ffynhonnell gyfreithlon ac o goedwigoedd a reolir yn gynaliadwy. Mae ardystiad yn gofyn am gydymffurfiaid â safonau o arfer coedwigaeth da fel y nodir yn Safon Coedwigaeth y DU a Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig, yn ogystal â bodloni ymrwymadau cyfreithiol statudol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn un o lofnodwyr Cytgord Diogelwch y Diwydiant Coedwigoedd, ac rydym wedi ymrwmo i chwarae ein rhan yn y gwaith o helpu i wella safonau diogelwch mewn gweithrediadau coedwigoedd. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflawni ei gyfrifoldebau fel rheolwr tir (a rheolwr gwaith coedwig lle bo'n berthnasol) ac yn ei gwneud yn ofynnol i gwsmeriaid gyflawni eu cyfrifoldebau fel y nodir yng nghanllaw'r diwydiant ar [Reoli Iechyd a Diogelwch mewn Gweithrediadau Coedwigaeth](#).

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith o gefnogi mentrau Cytgord Diogelwch y Diwydiant Coedwigoedd i wella perfformiad o ran diogelwch ac yn disgwyl i gwsmeriaid a chontractwyr fabwysiadu dull cadarnhaol o gefnogi gwelliannau i ddiwylliant a pherfformiad diogelwch.

Bydd angen i gwsmeriaid sy'n gwneud gwaith peirianeg sifil yn rhan o gontractau Gwerthiannau Sefydlog a Mwy gyflawni eu cyfrifoldebau o dan y rheoliadau Adeiladu, Dylunio a Rheoli.

Ni fydd unrhyw gyfaddawdu o ran perfformiad yn unol â safonau coedamaeth, amgylchedd, ac iechyd a diogelwch cadarn ar unrhyw fathau o gontract.

## 7. Gweithio gyda mentrau cymunedol

Ein nod yw annog a chefnogi cynhyrchu mwy o fanteision a manteision ehangach o Ystad Goed Llywodraeth Cymru, yn enwedig o ran mentrau cymunedol, datblygu sgiliau, a hybu llesiant. Rydym yn cydnabod ac yn croesawu'r diddordeb gan fentrau cymdeithasol a grwpiau coetir cymunedol yn ein dull o farchnata pren, a gwerth eu cyfranogiad a'u cefnogaeth o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru.

Ar hyn o bryd, trwy ein cynllun Coetiroedd a Chi / Mynediad, rydym wedi canolbwyntio ein cynnig menter gymunedol ar safleoedd yr ydym wedi eu gwerthuso i fod yn aneconomaidd i'w gweithio trwy ein gweithgareddau cynaeafu a marchnata traddodiadol a lle'r oedd gwerth cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd lleol menter gymunedol yn fwy na'r budd economaidd ehangach. Mae *Coetiroedd a Chi* hefyd yn rhoi cyfleoedd i gymunedau, mentrau cymdeithasol a phobl eraill sy'n defnyddio coetiroedd i ddatblygu a rheoli prosiectau, digwyddiadau a gweithgareddau, gan gynnwys cyfleoedd hyfforddiant a menter ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru.

Byddwn yn dilyn y dull canlynol yn ystod oes y cynllun hwn:

- Byddwn yn parhau i groesawu cynigion gan BBaChau a mentrau cymdeithasol trwy ein cynllun Coetiroedd a Chi (neu gynlluniau olynol), trwy ein gwefan a thrwy ein timau mewn gwahanol leoedd.
- Bydd BBaChau a mentrau cymdeithasol yn cael eu cynorthwyo i gael mynediad at werthiannau ac arwerthiannau electronig trwy ein timau lleol.
- Bydd datganiadau o ddiddordeb mewn gwerthiannau sy'n llai na'r lotiau sy'n cael eu cynnig yn cael eu croesawu, a byddwn bob amser yn archwilio gwerth cymharol unrhyw gynigion amrywiadol (eraill) a wneir.
- Byddwn yn parhau i werthu cyfran fach o bren trwy negodi, ar gyfer meintiau bach o fân-rywogaethau neu ddarpariaeth i farchnad neilltuedig.
- Byddwn yn cynnig amrywiaeth ehangach o barseli, yn amlach.
- Rhaid i'r *holl* waith gael ei wneud er mwyn cynorthwyo i gyflawni'r canlyniadau yr ydym eisiau eu gweld yn unol â chynlluniau rheoli cymeradwy, yn unol â safonau Cytgord Diogelwch Diwydiant Coedwigoedd y DU a Safonau Coedwigaeth y DU gan fodloni ein hardystiad Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig.
- Bydd pren sy'n deillio o hynny yn cael ei ddyrannu o dan drefniadau gwerthu sefydlog am werth y farchnad.

Efallai y bydd achosion pan fydd contractau dim gwerth yn briodol. Gallai hyn fod pan ellir dangos budd cymunedol sylweddol, lle mae angen gweithrediadau graddfa fach sensitif neu arbenigol i fodloni amcanion safleoedd penodol neu i gefnogi mentrau hyfforddi. Yn aml, nid yw safleoedd sy'n heriol o safbwynt gweithredol, fel y rhai â mynediad gwael neu lethrau serth, yn addas ar gyfer cyfleoedd cymunedol oni bai y gall y prosiect neu'r gweithgaredd ddangos gallu digonol i gydbwyso'r dull a amlinellir gydag amgylchiadau'r safle. Pan fydd contractau dim gwerth yn cael eu dyfarnu, bydd angen i'r ymgeiswyr gynnwys ac ymgysylltu â chymunedau lleol, a dangos budd eglur i'r gymuned leol o'r gweithgareddau rheoli coetir arfaethedig – er enghraifft, y ddarpariaeth o swyddi,

hyfforddiant achrededig a chyfleoedd datblygu sgiliau i bobl leol, neu gyfleoedd i ysgolion ddysgu am reoli coetir.

## 8. Rheoli carbon

Mae *Coetiroedd i Gymru* yn cydnabod pwysigrwydd rheoli coetir a phenderfyniadau am y defnydd o bren i leihau ôl troed carbon Cymru. Gall rheoli coetir a marchnata pren yn effeithiol leihau lefelau carbon deuocsid atmosfferig trwy gloi carbon mewn pren a gall gyfrannu at lai o allyriadau nwyon tŷ gwydr, e.e. trwy ddisodli deunydd. Gall rheoli coetiroedd a phren mewn ffordd sy'n ymwybodol o garbon arwain at gynnydd i'r carbon sy'n cael ei storio mewn pren, h.y. stociau carbon mewn coetiroedd a chynhyrchion pren.

Yn ystod oes y cynllun hwn, byddwn yn mabwysiadu "hierarchaeth defnydd carbon" syml fel ffordd o gymharu cyfraniad gwahanol gynhyrchion pren at leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn ein marchnata.

### Hierarchaeth defnydd carbon

Dull o gymharu cyfraniad gwahanol gynhyrchion pren at leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a chefnogi'r broses o storio carbon yn effeithiol yw'r "hierarchaeth defnydd carbon". Mae'n ystyried yr egwyddorion uchod i benderfynu ar safle cynnyrch yn yr hierarchaeth. Mae'n berthnasol i'r gadwyn cyflenwi pren gyfan, ac nid i gwmpas ein gweithgareddau o ran Ystad Goed Llywodraeth Cymru yn unig.

- Dylai'r broses o gynaeafu pren geisio cynhyrchu cymaint o bren ansawdd uchel â phosibl (e.e. i'w ddefnyddio i adeiladu).
- Dylai defnydd o bren geisio ddarparu'r oes gwasanaeth hiraf posibl o'r cynnyrch.
- Dylid hyrwyddo pren fel deunydd i'w ddefnyddio yn hytrach na deunyddiau mwy "ynni ymgorfforol uchel".
- Dylid defnyddio cymaint â phosibl o bren o ansawdd is (e.e. ar gyfer MDF a byrddau gronynnau) pan fo hynny'n bosibl.
- Gellir ystyried llosgi, hylosgi neu ddadelfennu pren (gan fod pren yn gynnyrch adnewyddadwy) ond mae'r opsiynau hyn ar ben isaf yr hierarchaeth.
- Dylid defnyddio ynni wrth gludo pren a chynhyrchu cyflenwadau pren cyn lleied â phosibl pan fo hynny'n bosibl.

O ran y cynllun hwn, mae'r "hierarchaeth defnydd carbon" yn golygu, ar gyfer gwerthiannau ymyl y ffordd, y byddwn yn parhau i:

- Werthu a graddio cynhyrchion i gyd-fynd â gwahanol farchnadoedd ac annog cymaint â phosibl o werth ychwanegol yn y gadwyn gyflenwi, e.e. sicrhau bod pren i'w ddefnyddio ar gyfer adeiladu ar gael cymaint â phosibl;
- Annog cynhyrchiad tanwydd pren o gynhyrchion coedwig â defnydd gwerth terfynol isel mewn ardaloedd yn agos at farchnadoedd gwerth uchel a busnesau prosesu sefydledig;
- Archwilio'r potensial o gynaeafu biomas ychwanegol o raglenni rheoli canghennau/tocion coed a llystyfiant ymyl y ffordd, i sicrhau cymaint o ddefnydd â phosibl o bren ansawdd isel.

O ran gwerthiannau sefydlog, cyfrifoldeb y prynwr fydd penderfynu pa gynhyrchion i'w cyflenwi i'r farchnad ond byddwn yn eu hannog, lle bynnag y bo'n bosibl, i ddilyn yr hierarchaeth defnydd carbon.

## Cyfoeth Naturiol Cymru fel sefydliad carbon bositif net

Yn 2015, ariannwyd Cyfoeth Naturiol Cymru gan LIC i gyfrifo ei statws carbon net ac i ddatblygu cynllun i wella statws carbon y sefydliad. Darparwyd y gwaith hwn gan y Prosiect Carbon Bositif ac mae'n gysylltiedig â darpariaeth ehangach Cyfoeth Naturiol Cymru yn erbyn Strategaeth Llywodraeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd (2010) a'i pholisi newid yn yr hinsawdd wedi'i adnewyddu (2014). Mae gwaith y Prosiect Carbon Bositif wedi hysbysu'r cynllun ac efallai y bydd allbynnau o'r prosiect yn hysbysu penderfyniadau cynaeafu a marchnata yn y fersiwn hon o'r cynllun hwn neu yn fersiynau'r dyfodol.

## 9. Rheoli perfformiad

Yn ogystal â'n hymrwymadau ar reoli newid, bydd gennym bwyslais ar y canlynol hefyd:

### Ffigurau perfformiad gwerthu ôl-weithredol

Rydym wedi gwrando'n ofalus ar ein rhanddeiliaid a byddwn yn dryloyw yn ystod cyfnod y cynllun hwn ynghylch ein gwariant a'n hincwm, lle mae hyn yn ychwanegu gwerth, yn cefnogi perfformiad gwell ar draws y sector, ac nad yw'n mynd yn groes i gyfrinachedd masnachol.

Byddwn yn gweithio trwy Grŵp y Sector Busnes Coedwigaeth i gytuno a datblygu'r ffigurau perfformiad gwerthu ôl-weithredol canlynol a fydd yn cael eu cyhoeddi ar ein tudalennau gwe:

1. Gwybodaeth am bris cyfartalog fesul cynnyrch ar werthoedd gwerthu incwm uned ymyl y ffordd.
2. Adrodd alldro diwedd blwyddyn fesul cynnyrch ar gyfer ein gwerthiannau ymyl y ffordd fel y gallwn asesu adferiad yn erbyn y rhaglen gynaeafu flynyddol.
3. Adrodd ar gywirdeb ein prisiau a'n gwaith pennu cronfeydd wrth gefn yn erbyn dyfarniad contract o'n cyfleoedd e-werthu yn y dyfodol.
4. Cyhoeddi ein gwerthoedd a sicrhawyd yn y prif ddigwyddiadau gwerthu.
5. Gweithio tuag at fwy o eglurder wrth gyhoeddi gwariant/incwm diwedd blwyddyn a gwybodaeth am warged net ar gyfer rhaglen pren Cyfoeth Naturiol Cymru.
6. Parhau i weithio gyda'r Comisiwn Coedwigaeth i gyhoeddi'r mynegai gwerthiannau sefydlog.

### Dangosyddion perfformiad allweddol

Byddwn yn gweithio gyda Grŵp y Sector Busnes Coedwigaeth i gytuno a datblygu dangosyddion perfformiad allweddol trwy gydol oes y cynllun hwn. Ein nod yw adlewyrchu'r hyn yr ydym wedi ei gyflawni, lle mae gennym reolaeth uniongyrchol dros y canlyniadau, ond peidio ag ailadrodd gwybodaeth a gyhoeddwyd mewn manau eraill, e.e. dangosyddion *Coetiroedd i Gymru*, y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol, Ffeithiau a Ffigurau Coedwigaeth. Gallai'r dangosyddion perfformiad allweddol hyn gynnwys:

- Perfformiad yn erbyn digwyddiadau gwerthu marchnad agored cyhoeddedig;
- Perfformiad yn erbyn cyfanswm ac incwm a fwriadwyd yn flynyddol;
- Ymrwymiad i barhau i gyhoeddi ein cyfleoedd gwerthu marchnad agored o leiaf blwyddyn ymlaen llaw;
- Ymrwymiad i gyhoeddi set flynyddol o gyfrifon ariannol ar gyfer coedwigaeth yn cychwyn yng nghyfnod y cynllun.

Byddwn yn parhau i ddatblygu adran farchnata ein gwefan a gwella'r wybodaeth am ein contractau, ein digwyddiadau gwerthu, ein canlyniadau gwerthu a'n cyfansymiau gwerthu, a gwneud y wybodaeth hon ar gael.

## 10. Safonau gwasanaeth cwsmeriaid a chyfathrebu

O fewn Cyfoeth Naturiol Cymru, rydym yn gweithio'n unol â'n [safon gofal a gwasanaeth cwsmeriaid](#).

Mae'r safonau hyn yn berthnasol i'n holl feysydd gwaith ac yn esbonio'n eglur yr hyn y gall cwsmeriaid ei ddisgwyl gennym a'n dyheadau ar gyfer y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu. Maent yn trafod amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys:

- Ceisiadau am wybodaeth (y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth)
- Ein Cynllun Iaith Gymraeg
- Gweithrediad ein "Canolfan Gofal Cwsmeriaid" siop un stop
- Sut i wneud cwyn.

Hefyd, ac o ran cynaeafu a marchnata pren yn benodol, byddwn yn cyflawni'r ymrwymadau canlynol. Mae'r rhain yn cyd-fynd â Siarter Cwsmeriaid Pren y Comisiwn Coedwigaeth sy'n berthnasol i Loegr a'r Alban, gan gynnig cysondeb i fusnesau sy'n gweithio ar draws y DU.

## 11. Cludo pren

Mae cludo yn rhan allweddol o'r gadwyn cyflenwi pren. Rydym yn hyrwyddo'r Cod Ymddygiad Cludo Pren a byddwn yn cyhoeddi Atlas Ffyrdd yn flynyddol (erbyn diwedd mis Ionawr) yn cynnwys llwybrau a gytunwyd ar gyfer cludwyr sy'n gweithio ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'r sector i gefnogi gwelliannau pellach o ran cludo trwy arloesedd fel systemau pwysedd tir isel a mathau eraill o dechnoleg newydd. Byddwn yn parhau i weithio gydag eraill i ddod o hyd i atebion ymarferol mewn mannau lle mae cludo pren yn cael effaith andwyol ar gymunedau, ein seilwaith a'r amgylchedd.

## 12. Diogelwch safleoedd

Rydym yn cydnabod bod problemau diogelwch wedi atal cwsmeriaid rhag prynu pren mewn rhai rhannau o Gymru. Mae mynediad at safleoedd sy'n ddiogel rhag gweithgarwch trosseddol yn bwysig a byddwn yn parhau i weithio gyda chwsmeriaid a chontractwyr pren er mwyn helpu i amddiffyn diogelwch a bywoliaeth contractwyr a chwsmeriaid sy'n gweithio ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru, ac i sicrhau cydymffurfiaid â Deddf Diwydiant Diogelwch Preifat 2001.

## 13. Ymdrin â digwyddiadau na ragwelwyd

Rydym yn cydnabod yr effaith y gall digwyddiadau na ragwelwyd fel tywydd, achos o glefyd a ffactorau eraill ei chael ar ein cwsmeriaid. Ein blaenoriaeth ym mhob achos o'r fath yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n cwsmeriaid. Byddwn yn gwneud hyn trwy gadw mewn cysylltiad agos â Chymdeithas Cynhyrchion Coedwig y DU a Confor a thrwy ein gwefan a thrwy gysylltu â chwsmeriaid yn uniongyrchol pan fo hynny'n bosibl. Byddwn hefyd yn defnyddio datganiadau i'r wasg a dulliau cyfathrebu eraill er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gywir a pherthnasol ar gael.

Pan fydd yn bosibl, byddwn yn ceisio ymdrin ag effeithiau digwyddiadau o'r fath er mwyn sicrhau bod eu heffaith ar gwsmeriaid cyn lleied â phosibl.

O dan amgylchiadau eithriadol yn unig, efallai y byddwn yn penderfynu negodi gwerthiant pren i gwsmeriaid sy'n gallu ymateb yn gyflym i ddigwyddiadau annisgwyl.

## 14. Achos o glefyd yn effeithio ar goed, fel *Phytophthora ramorum* mewn coed llarwydd

- Pan fydd cwmpadau glanweithdra yn angenrheidiol, byddwn yn cyflawni'r rhain yn effeithlon o gofio'r amodau sy'n bodoli, gyda'r nod o wneud y pren ar gael i gwsmeriaid ei brynu os byddant yn dymuno gwneud hynny.
- Byddwn yn ceisio bodloni telerau contractau pren presennol er mwyn sicrhau bod yr angen i weithredu'r cymal *force majeure* cyn lleied â phosibl.
- Byddwn yn sicrhau bod yr effaith ar gynhyrchiad pren yn y dyfodol cyn lleied â phosibl trwy ddisodli'r pren o gwmpadau glanweithdra gyda chynhyrchiad pren wedi'i gynllunio.
- Byddwn yn gwahodd deiliaid contract hirdymor i ddisodli cyfansymiau pren a gontractiwyd gyda phren o gwmpadau glanweithdra ac yn cynnwys amod mewn contractau yn y dyfodol sy'n ei gwneud yn ofynnol i gwsmeriaid dderbyn elfen o ddisodliad o'r fath.

## 15. Digwyddiadau tywydd difrifol

- Byddwn yn ceisio sicrhau cyn lleied o effaith â phosibl ar ein cwsmeriaid, ein rhaglen a'n seilwaith o gyfnodau o dywydd difrifol yn y dyfodol trwy sicrhau cyn belled â phosibl bod ein cynllunio gwerthiannau a gweithredol yn cymryd effeithiau tywydd difrifol i ystyriaeth.
- Byddwn yn eglur ar ein dewislen o argaeledd rhaglen blaen-werthiannau yn ystod y flwyddyn bresennol a nesaf fel y gall ein cwsmeriaid gynllunio eu rheolaeth cadwyn gyflenwi a stoc ehangach yn well hefyd.
- Ni fyddwn yn cyfnewid llennyrch a ymrwymwyd naill ai trwy werthiannau sefydlog neu werthiannau ymyl y ffordd lle mae mynediad wedi'i gyfyngu oherwydd tywydd difrifol.
- Byddwn yn cefnogi ac yn gwrandao ar atebion a arweinir gan y cwsmer/deiliad y contract os bydd tywydd difrifol (pan nad yw rhwydwaith ffyrdd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei beryglu).
- Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i gludwyr a chontractwyr, pa un a ydynt wedi'u cyflogi gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu gwsmer/deiliad contract, ohirio gwaith a gweithrediadau os bydd tywydd difrifol pan fod asesiad o iechyd a diogelwch neu ddigwyddiad amgylcheddol yn annerbyniol i Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Byddwn yn rheoli ein gweithrediadau Cynhyrchu Uniongyrchol yn y fath ffordd y bydd ymrwymadau cynhyrchu ac a werthwyd wedi'u halinio'n agos. Yn ystod cyfnodau o dywydd garw pan fydd cludo wedi'i gyfyngu, bydd hyn yn gofyn i'n cyflenwyr arafu, neu ohirio eu gwaith, i atal stociau nad ydynt wedi'u hymrwymo rhag crynhoi.



## Atodiad 1: Cefndir polisi a deddfwriaethol, a gwybodaeth am y rhagolwg cynhyrchu

Yn *Coetiroedd i Gymru*, y weledigaeth a fynegir gan LIC yw “i Gymru gael ei chydabod am ei choetiroedd o ansawdd uchel sydd yn harddu’r dirwedd, sydd yn addas i’r amgylchiadau lleol ac sydd â chymysgedd amrywiol o rywogaethau a chynefinoedd.” Bydd y rhain:

- Yn cynnig buddion cymdeithasol a chymunedol go iawn, yn lleol ac yn genedlaethol
- Yn cynnal diwydiannau ffyniannus ar sail coetir
- Yn cyfrannu tuag at amgylchedd o ansawdd gwell ledled Cymru.

Er mwyn gwireddu’r weledigaeth hon, ceir thema “sylfaen” graidd yn canolbwyntio ar goetiroedd a choed Cymru (eu rheoli, eu hamrywiaeth a’u creu) yn ogystal â phedair thema strategol:

- Ymateb i’r newid yn yr hinsawdd
- Coetiroedd i bobl
- Sector coedwigaeth cystadleuol ac integredig
- Ansawdd yr amgylchedd.

Ceir 20 canlyniad lefel uchel sy’n gysylltiedig â’r themâu hyn, a dyma’r rhai mwyaf perthnasol ohonynt i’r cynllun hwn:

- Y sector coedwigaeth wedi’i integreiddio’n well, yn fwy cystadleuol, ac yn cefnogi economi Cymru
- Mwy o goed wedi’u tyfu yng Nghymru’n cael eu defnyddio yng Nghymru
- Mwy o ddefnydd o goed fel adnodd adnewyddadwy pwysig
- Gweithlu medrus, llwyddiannus yn y sector coedwigaeth
- Mwy o bobl yn elwa o ganlyniad i fentrau sy’n gysylltiedig â choetiroedd
- Mwy o gymunedau’n elwa o ganlyniad i goetiroedd a choed
- Coetiroedd Cymru’n helpu i leihau ôl troed carbon Cymru
- Rheolaeth coetiroedd yn sicrhau stiwardiaeth amgylcheddol o safon uchel.

Mae *Coetiroedd i Gymru* yn pwysleisio y gall coetiroedd a choed gynnig manteision lluosog ar yr un pryd ac yn yr un lle, a’u bod yn gwneud hynny. Mae darparu sector coedwigoedd cystadleuol ac integredig (sy’n cynnwys cwsmeriaid pren, y gadwyn cyflenwi pren, mentrau cymdeithasol a grwpiau cymunedol) yn eistedd ochr yn ochr â chanlyniadau dymunol eraill sy’n gysylltiedig ag addasu i’r newid yn yr hinsawdd a lliniaru yn ei erbyn, hamdden, mynediad, manteision cymunedol ac adfywio, rheoli dŵr a phridd, bioamrywiaeth a sgwrsio. Mae blaenoriaethau ehangach LIC, fel twf gwyrdd a swyddi gwyrdd, sy’n arbennig o bwysig yng nghyd-destun datblygu sector coedwigoedd cystadleuol ac integredig, hefyd yn berthnasol.

Er iddynt gael eu cyhoeddi yn 2009, mae’r weledigaeth, y themâu a’r canlyniadau sydd wedi’u cynnwys yn *Coetiroedd i Gymru* yn cyd-fynd â dau ddarn o ddeddfwriaeth newydd yng Nghymru: Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn diffinio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy fel:

*“... defnyddio adnoddau naturiol mewn modd ac ar raddfa sy'n cynnal ac yn gwella gwytnwch ecosystemau a'r buddion a ddaw yn eu sgil. Drwy wneud hyn, mae'n cwrdd ag anghenion y cenedlaethau presennol o bobl heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion hwy, ac mae'n cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant a osodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol”.*

Nodir yn y Ddeddf bod adnoddau naturiol yn cynnwys:

- Anifeiliaid, planhigion ac organebau eraill
- Aer, dŵr a phridd
- Mwynau
- Nodweddion a phrosesau daearyddol
- Nodweddion ffisiograffegol
- Nodweddion a phrosesau hinsoddol.

Mae pren (ffibr) yn adnodd naturiol allweddol sy'n deillio o ecosystemau coetir, ac mae ein gwaith o gynaeafu a gwerthu pren o Ystad Goed Llywodraeth Cymru yn rhan bwysig o ymrwymiad cyffredinol Cymru i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gwneud y cysylltiad rhwng ein rheolaeth o adnoddau naturiol a'r llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yr ydym yn ei gael ohonynt. Ceir saith nod llesiant yn y Ddeddf, ac mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus weithio i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at fodloni bob un o'r nodau hyn:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Gall y ffordd yr ydym yn rheoli ein hadnoddau naturiol nawr ac yn y dyfodol gael effaith ddofn ar eu gallu i barhau i ddarparu manteision llesiant. Er enghraifft, o ran y Cynllun Marchnata Pren, mae gan y lefel yr ydym yn pennu ein gweithgarwch cynaeafu ar gyfer 2017–22 oblygiadau i botensial cynhyrchu Ystad Goed Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, a'r llif manteision yn sgil hynny (fel incwm, cyflogaeth, potensial hamdden ac ati) sy'n deillio o'r adnodd hwn.

### **Rhagolwg Cynhyrchu**

Mae'r Cynllun Marchnata Pren yn cymryd i ystyriaeth y Rhagolwg Cynhyrchu sy'n cael ei lunio ar gyfer Ystad Goed Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar y Cynlluniau Adnodd Coedwig hirdymor presennol.

Mae'r tabl a'r graff canlynol o Ragolwg Cynhyrchu 2014 yn nodi cyfanswm y *pren meddal sydd ar gael* o Ystad Goed Llywodraeth Cymru. Mae'r lefel gynhyrchu a nodir yn y Cynllun Marchnata hwn o fewn y cyfansymiau a ragwelir yn y rhagolwg cynhyrchu ac rydym o'r farn y bydd hyn yn ein helpu i sicrhau y gellir cynnal cynhyrchiad ar y lefel hon dros gyfnod hwy na fyddai'n wir pe baem yn cynyddu cynhyrchiad yn y byrdymor. Bydd y lefel gynhyrchu hon yn cynnig cyfle i gynlluniau adnodd coedwig gael eu hadolygu yng ngoleuni ystyriaethau polisi a strategol tymor hwy.

Mae gwybodaeth fwy manwl ar gael mewn adroddiadau wedi'u cyhoeddi ar wefan y Comisiwn Coedwigaeth:


- [www.forestry.gov.uk/inventory](http://www.forestry.gov.uk/inventory)
- [www.forestry.gov.uk/forecast](http://www.forestry.gov.uk/forecast)

**Tabl: Argaeledd pren blynyddol cyfartalog ar gyfer Ystad Goed Llywodraeth Cymru**

Cyfnod rhagolwg	Cyfanswm 000 m3 obs		
	Preniau meddal	Preniau caled	Pob rhywogaeth
2015-2016	862	9	871
2017-2021	965	10	975
2022-2026	953	16	969
2027-2031	774	11	785
2032-2036	926	16	941
2037-2041	831	19	850
2042-2046	515	64	579
2047-2051	570	17	588
2052-2056	510	23	533
2057-2061	710	17	727

**Ffigur: Argaeledd pren blynyddol cyfartalog ar gyfer pob coniffer, wedi'i rannu ar sail cyfanswm llwyrgwmpo a theneuo**

Llwyrgwmpo	
Teneuo	



**Cyhoeddwyd gan:**

**Cyfoeth Naturiol Cymru  
Tŷ Cambria  
29 Heol Casnewydd  
Caerdydd  
CF24 0TP**

**0300 065 3000 (Llun – Gwe, 8am – 6pm)**

**[enquiries@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:enquiries@naturalresourceswales.gov.uk)  
[www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](http://www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)**

**© Cyfoeth Naturiol Cymru**

**Cedwir pob hawl. Ceir atgynhyrchu'r ddogfen hon gyda chaniatâd ymlaen llaw gan  
Cyfoeth Naturiol Cymru**